Iechyd a Diogelwch
Cyngor Rhondda Cynon Taf, gweithio gyda chi, gweithio gyda'n gilydd

gweithio'nwell
workwell

Health and Safety
Rhondda Cynon Taf Council, working with you, working together

# RHEOLIADAU ADRODD AR ANAFIADAU, CLEFYDAU A DIGWYDDIADAU PERYGLUS 2013 (RIDDOR)

## CANLLAWIAU ADRODD AM DDAMWEINIAU

## HYDREF 2021

Mae'r ddogfen yma ar gael yn y Saesneg
This document is available in English

**Cyflwyniad**

Mae'r Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus 2013 (RIDDOR 2013) yn mynnu bod rhaid adrodd am anafiadau penodol i'r awdurdod gorfodi, Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE). Mae'r rhain yn cynnwys marwolaethau, clefydau galwedigaethol a digwyddiadau peryglus.

Er mwyn rhoi gwybod am unrhyw un o'r digwyddiadau uchod i'r HSE, rhaid eu bod nhw'n 'gysylltiedig â'r gwaith'. Caiff gweithredoedd treisgar anghydsyniol, tuag at bobl yn y gweithle, eu cynnwys ar y rhestr o ddigwyddiadau sy'n adroddadwy. Wrth benderfynu a yw digwyddiad yn 'gysylltiedig â'r gwaith', y pethau allweddol i'w hystyried yw a oedd y digwyddiad yn gysylltiedig â'r canlynol:

- y ffordd y cafodd y gwaith ei gyflawni;
- unrhyw beiriant, sylweddau neu offer sy'n cael eu defnyddio ar gyfer gwaith;
- a chyflwr y safle neu’r lleoliad lle bu'r digwyddiad.

Os oedd unrhyw un o'r ffactorau uchod yn gyfrifol am achosi'r digwyddiad, caiff ei ystyried yn 'gysylltiedig â'r gwaith' ac mae'n bosibl y bydd rhaid rhoi gwybod amdano i'r HSE.

Mae adrodd am ddigwyddiadau ac afiechydon penodol yn y gweithle yn ofyniad cyfreithiol o dan reoliadau RIDDOR 2013. Mae'r adroddiadau yn galluogi'r HSE i nodi ble a sut mae risgiau yn codi, i ymchwilio i ddamweiniau difrifol a datblygu canllawiau i weithwyr sy'n helpu osgoi digwyddiadau o'r fath yn y dyfodol. Gall y Cyngor gael ei erlyn am beidio â chydymffurfio â RIDDOR 2013. Felly, mae'n hollbwysig eich bod chi'n darllen, deall ac yn gweithredu'r canllawiau sydd wedi'u hamlinellu yn y ddogfen yma.

Yn ystod oriau gwaith arferol, cyfrifoldeb Carfan Iechyd a Diogelwch y Cyngor yw rhoi gwybod i'r HSE am ddigwyddiadau penodol. Y tu allan i oriau gwaith arferol, dros y penwythnos neu ar Wŷl y Banc er enghraifft, cyfrifoldeb y goruchwyliwr neu'r rheolwr perthnasol yw hyn.

Os nad ydy goruchwyliwr neu reolwr yn rhoi gwybod i Garfan Iechyd a Diogelwch y Cyngor ynglŷn â digwyddiad adroddadwy o fewn y terfynau amser sydd wedi'u nodi yn RIDDOR 2013, neu mewn sefyllfa 'y tu allan i oriau' eu bod nhw'n methu â chadw at y terfynau amser eu hunain, gall y Garfan roi gwybod i uwch reolwr priodol am hyn.

Mae'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn y canllawiau yn nodi'r gweithdrefnau sydd raid eu dilyn er mwyn galluogi'r Cyngor i gydymffurfio â RIDDOR 2013.

**(Er hyn, noder bod rhaid adrodd am BOB digwyddiad sy'n gysylltiedig â'r gwaith i Garfan Iechyd a Diogelwch y Cyngor. Mae modd gwneud hyn drwy lenwi Ffurflen Cofnod Ymchwiliad i Ddigwyddiad/Damwain a Niwed HS5(A) y Cyngor [a gyfeirir ati o hyn ymlaen fel HS5(A)] sy'n cynnwys y digwyddiadau nad oes angen eu hadrodd i'r HSE. Ar gyfer digwyddiadau/damweiniau nad oes angen rhoi gwybod amdanyn nhw, dylai ffurflenni HS5(A) gael eu hanfon at y Garfan Iechyd a Diogelwch cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol - ddylai rheolwyr ddim eu cadw nhw er mwyn anfon nifer ohonyn nhw gyda'i gilydd yn hwyrach ymlaen, weithiau fisoedd ar ôl y digwyddiad/y ddamwain.)**

Lle bo goruchwyliwr neu reolwr yn adrodd am ddigwyddiad i'r HSE a ddigwyddodd 'y tu allan i oriau', dylai hyn gael ei wneud yn glir yn y ffurflen HS5(A).

Os yw'r goruchwyliwr neu'r rheolwr yn ansicr o'i gyfrifoldebau neu'r gofynion adrodd pan fydd rhywbeth yn digwydd, fe all gysylltu ag aelod o'r Garfan Iechyd a Diogelwch am gyngor yn ystod oriau gwaith arferol drwy ddefnyddio'r manylion cyswllt isod:

CarfanIechydaDiogelwch@rctcbc.gov.uk

| Enw | Rhif ffôn |
|---|---|
| Mike Murphy | 01443 425536 |
| Stephen Humphreys | 01443 425524 |
| Adrian Perry | 01443 425456 |
| Eddie Pugsley | 01443 425666 |
| Zoe Florence | 01443 425531 |

Mae croeso i chi gyfathrebu â ni yn y Gymraeg

| Rhif | CATEGORI'R DIGWYDDIAD / Y DDAMWAIN | GWEITHDREFN ADRODD AR GYFER GORUCHWYLIWR NEU REOLWR | CYFRIFOLDEBAU'R GARFAN IECHYD A DIOGELWCH |
|---|---|---|---|
| 1 | **Gweithiwr, unigolyn hunangyflogedig neu aelod o'r cyhoedd yn marw** o ganlyniad i ddamwain sy'n gysylltiedig â'r gwaith (gan gynnwys gweithred dreisgar anghydsyniol tuag at unigolyn yn y gwaith) neu o ddod i gysylltiad galwedigaethol â chyfrwng biolegol. | Rhaid i'r goruchwyliwr neu'r rheolwr dan sylw rhoi'r manylion i'r Garfan Iechyd a Diogelwch **ar unwaith**, e.e. dros y ffôn.<br><br>Rhaid anfon y Ffurflen HS5(A) at y Garfan Iechyd a Diogelwch cyn gynted â phosibl, ond yn sicr, cyn pen 5 diwrnod (mae modd anfon y ffurflen drwy ffacs: 01443 444534). | Ar ôl cael gwybod am y ddamwain, rhaid i aelod o'r Garfan Iechyd a Diogelwch roi gwybod i'r HSE amdani **ar unwaith** gan ddefnyddio'r dull cyfathrebu cyflymaf , e.e. dros y ffôn neu drwy lenwi'r Ffurflen F2508 ar ei system ar-lein. Os rhoddwyd gwybod i'r HSE dros y ffôn yn gyntaf, rhaid llenwi'r Ffurflen F2508 ar ôl hynny hefyd, gan ddefnyddio system ar-lein yr HSE. Rhaid gwneud hyn o fewn 10 niwrnod o ddyddiad y digwyddiad ar yr hwyraf. Ar ôl cael ei llenwi, dylai copi o'r F2508 gael ei anfon at yr uwch reolwr perthnasol ac os oedd gweithiwr yn rhan o'r digwyddiad, rhaid anfon copi i adran iechyd Adnoddau Dynol hefyd. |
| 2 | **Gweithiwr yn marw** o ganlyniad i ddamwain adroddadwy cysylltiedig â'r gwaith (gan gynnwys gweithred dreisgar anghydsyniol tuag at rywun yn y gwaith) a ddigwyddodd yn flaenorol, a chyn pen blwyddyn i ddyddiad y ddamwain. | Rhaid i'r goruchwyliwr neu'r rheolwr dan sylw roi'r manylion i'r Garfan Iechyd a Diogelwch, mewn ysgrifen, drwy lenwi Ffurflen HS5(A) a'i hanfon **yn syth** ar ôl iddo ddod i wybod am y farwolaeth. Mae modd anfon y ffurflen drwy ffacs ar 01443 444534.<br><br>Mae hyn yn berthnasol hyd yn oed os cafodd y Ffurflen ei llenwi a'i hanfon at y Garfan Iechyd a Diogelwch ar adeg y digwyddiad gwreiddiol. | Ar ôl derbyn y manylion, rhaid i aelod o'r Garfan Iechyd a Diogelwch roi gwybod i'r HSE amdani **ar unwaith** gan ddefnyddio'r dull cyfathrebu cyflymaf, h.y. dros y ffôn neu drwy lenwi'r Ffurflen F2508 ar ei system ar-lein. Mae hyn yn berthnasol os rhoddwyd gwybod i'r HSE ar adeg y ddamwain wreiddiol neu beidio.<br>Ar ôl ei chwblhau, dylai un copi o'r F2508 gael ei hanfon at uwch reolwr perthnasol ac un copi i'r adran Adnoddau Dynol. |

| Rhif | CATEGORI'R DIGWYDDIAD / Y DDAMWAIN | GWEITHDREFN ADRODD AR GYFER GORUCHWYLIWR NEU REOLWR | CYFRIFOLDEBAU'R GARFAN IECHYD A DIOGELWCH |
|---|---|---|---|
| **3** | **Anaf nad yw'n angheuol i weithiwr neu unigolyn hunan-gyflogedig** o ganlyniad i ddamwain sy'n gysylltiedig â'r gwaith (gan gynnwys gweithred dreisgar anghydsyniol tuag at unigolyn yn y gwaith).<br><br>(Gweler y rhestr ynghlwm sy'n nodi pa 'anafiadau penodol nad ydynt yn angheuol i weithwyr' tuag at ddiwedd y canllawiau yma.) | Rhaid i'r goruchwyliwr neu'r rheolwr dan sylw roi'r manylion i'r Garfan Iechyd a Diogelwch **ar unwaith**, e.e. dros y ffôn neu drwy lenwi ac anfon y Ffurflen HS5(A). Mae modd anfon y ffurflen drwy ffacs ar 01443 444534.<br><br>Os rhoddwyd gwybod i'r HSE dros y ffôn yn gyntaf, rhaid llenwi'r Ffurflen HS5(A) a'i hanfon at y Garfan Iechyd a Diogelwch cyn gynted â phosibl, ond yn sicr, cyn pen 5 niwrnod. | Ar ôl cael gwybod am y ddamwain, rhaid i aelod o'r Garfan Iechyd a Diogelwch roi gwybod i'r HSE amdani **ar unwaith** gan ddefnyddio'r dull cyfathrebu cyflymaf , e.e. dros y ffôn neu drwy lenwi'r Ffurflen F2508 ar ei system ar-lein.  Os rhoddwyd gwybod i'r HSE dros y ffôn yn gyntaf, rhaid llenwi'r Ffurflen F2508 ar ôl hynny hefyd, gan ddefnyddio system ar-lein yr HSE. Rhaid gwneud hyn o fewn 10 niwrnod o ddyddiad y digwyddiad ar yr hwyraf.  Ar ôl cael ei llenwi, dylai copi o'r F2508 gael ei anfon at yr uwch reolwr perthnasol ac os oedd gweithiwr yn rhan o'r digwyddiad, rhaid anfon copi i'r adran Adnoddau Dynol hefyd. |
| **4** | **Anafiadau i bobl sydd ddim yn y gwaith sy'n mynd i'r ysbyty**<br><br>**Pobl sydd ddim yn y gwaith -** e.e. preswylydd cartref gofal, disgybl neu fyfyriwr, cwsmer canolfan hamdden.<br>**Noder:**<br>**Er mwyn cael adrodd am ddamwain sy'n ymwneud ag aelod o'r cyhoedd, rhaid bod y ddamwain yn 'gysylltiedig â'r gwaith' ac wedi arwain at yr unigolyn yn cael 'ei dywys o safle'r digwyddiad i'r ysbyty i dderbyn triniaeth'.   Dydy archwiliadau a phrofion diagnostig ddim yn cael eu hystyried yn 'driniaeth' mewn amgylchiadau o'r fath.   Does dim angen adrodd am ddigwyddiad os bu raid i berson fynd i'r ysbyty fel mesur diogelu pan nad oes anaf** | Rhaid i'r goruchwyliwr neu'r rheolwr dan sylw roi'r manylion i'r Garfan Iechyd a Diogelwch **ar unwaith**, e.e. dros y ffôn neu drwy lenwi ac anfon y Ffurflen HS5(A). Mae modd anfon y ffurflen drwy ffacs ar 01443 444534.<br><br>Os rhoddwyd gwybod i'r HSE dros y ffôn yn gyntaf, rhaid llenwi'r Ffurflen HS5(A) a'i hanfon at y Garfan Iechyd a Diogelwch cyn gynted â phosibl, ond yn sicr, cyn pen 5 niwrnod. | Ar ôl derbyn manylion am y ddamwain, rhaid i aelod o'r Garfan Iechyd a Diogelwch roi gwybod i'r HSE amdani **ar unwaith** gan ddefnyddio'r dull cyfathrebu cyflymaf, e.e. dros y ffôn neu drwy lenwi Ffurflen F2508 ar ei system ar-lein.<br>Rhaid rhoi gwybod i'r HSE, mewn ysgrifen, drwy lenwi'r Ffurflen F2508 o fewn 10 niwrnod o ddyddiad y ddamwain fan bellaf. Bydd llenwi ffurflen F2508 ar-lein (o fewn yr un cyfnod amser) yn ateb y gofyniad yma.<br>Anfonwch un copi o'r F2508 (wedi'i llenwi) at yr uwch reolwr perthnasol gan gadw un yn y ffeil berthnasol yn y swyddfa Iechyd a Diogelwch. |

| Rhif | CATEGORI'R DIGWYDDIAD / Y DDAMWAIN | GWEITHDREFN ADRODD AR GYFER GORUCHWYLIWR NEU REOLWR | CYFRIFOLDEBAU'R GARFAN IECHYD A DIOGELWCH |
|---|---|---|---|
| | **sy'n amlwg.** | | |
| 5 | **Anaf sy'n para dros 7 niwrnod**<br><br>Anaf i weithiwr neu unigolyn hunan-gyflogedig sydd wedi deillio o'r gwaith neu sy'n gysylltiedig â'r gwaith (gan gynnwys gweithred dreisgar anghydsyniol, tuag at bobl yn y gweithle). Rhaid bod yr anaf wedi arwain at absenoldeb o'r gwaith am fwy na 7 niwrnod yn olynol neu fod yr unigolyn ddim yn gallu cyflawni eu dyletswyddau arferol dros y cyfnod hwnnw (mae hyn yn cynnwys unrhyw absenoldeb o ganlyniad i gael damwain yn y gwaith).<br><br>(Mae nifer yr absenoldebau yn eithrio diwrnod y ddamwain. Ond, gall gynnwys diwrnodau sydd ddim yn ddiwrnodau gwaith, e.e. dyddiau'r penwythnos, os nad oedd y person yn iawn i weithio.) | Rhaid i'r goruchwyliwr neu'r rheolwr dan sylw roi'r manylion i'r Garfan Iechyd a Diogelwch cyn gynted â phosibl ar ôl i'r cyfnod o 7 niwrnod fynd heibio, ond yn sicr o fewn 10 niwrnod fan bellaf. Mae modd gwneud hyn dros y ffôn neu drwy lenwi ac anfon y Ffurflen HS5(A) yn ôl. Mae modd anfon y ffurflen drwy ffacs ar 01443 444534.<br><br>Os rhoddwyd gwybod i'r HSE dros y ffôn yn y lle cyntaf, rhaid anfon y Ffurflen HS5(A) at y Garfan Iechyd a Diogelwch cyn gynted â phosibl, ond yn sicr o fewn 10 diwrnod. | Ar ôl cael gwybod am y ddamwain, rhaid i aelod o'r Garfan Iechyd a Diogelwch roi gwybod i'r HSE yn ysgrifenedig amdani cyn gynted â phosibl drwy lenwi Ffurflen F2508 gan ddefnyddio'i gyfleuster ar-lein, ond yn sicr, o fewn 15 niwrnod o ddyddiad y digwyddiad. Anfonwch un copi o'r F2508 (wedi'i llenwi) at yr uwch reolwr perthnasol ac un i'r adran Adnoddau Dynol. |

| Rhif | CATEGORI'R DIGWYDDIAD / Y DDAMWAIN | GWEITHDREFN ADRODD AR GYFER GORUCHWYLIWR NEU REOLWR | CYFRIFOLDEBAU'R GARFAN IECHYD A DIOGELWCH |
|---|---|---|---|
| 6 | **Digwyddiadau Peryglus**<br><br>Un o'r digwyddiadau peryglus a nodwyd yn Atodlen 2 'RIDDOR 2013' e.e. sgaffaldiau yn dymchwel, unrhyw ran o offer codi sy'n cludo llwythau yn methu.<br><br>(Gweler rhestr o'r 'digwyddiadau peryglus' tuag at ddiwedd y canllawiau yma.) | Rhaid i'r goruchwyliwr neu'r rheolwr dan sylw roi'r manylion i'r Garfan Iechyd a Diogelwch **ar unwaith**, e.e. dros y ffôn neu drwy lenwi ac anfon y Ffurflen HS5(A). Mae modd anfon y ffurflen drwy ffacs ar 01443 444534.<br><br>Os rhoddwyd gwybod i'r HSE dros y ffôn yn gyntaf, rhaid llenwi'r Ffurflen HS5(A) a'i hanfon at y Garfan Iechyd a Diogelwch cyn gynted â phosibl, ond yn sicr, cyn pen 5 niwrnod. | Ar ôl derbyn manylion am y digwyddiad peryglus, rhaid i aelod o'r Garfan Iechyd a Diogelwch roi gwybod i'r HSE amdano **ar unwaith** gan ddefnyddio'r dull cyfathrebu cyflymaf, e.e. dros y ffôn neu drwy lenwi Ffurflen F2508 ar ei system ar-lein.<br>Rhaid rhoi gwybod i'r HSE yn ysgrifenedig drwy lenwi'r Ffurflen F2508 o fewn 10 niwrnod o ddyddiad y digwyddiad fan bellaf a bydd llenwi ffurflen F2508 ar-lein (o fewn y cyfnod yma) yn ateb y gofyniad yma.<br>Ar ôl cael ei llenwi, dylai copi o'r F2508 gael ei anfon at yr uwch reolwr perthnasol ac os oedd gweithiwr yn rhan o'r digwyddiad, rhaid anfon copi i'r adran Adnoddau Dynol hefyd. |
| 7 | **Salwch Adroddadwy sy'n Gysylltiedig â'r Gwaith**<br><br>Lle caiff diagnosis ysgrifenedig ei dderbyn gan ymarferydd iechyd cofrestredig sy'n nodi bod gweithiwr yn dioddef o salwch adroddadwy sy'n gysylltiedig â'r gwaith, e.e. afiechyd galwedigaethol.<br><br>(Gweler y rhestr ynghlwm sy'n nodi 'salwch adroddadwy sy'n gysylltiedig â'r gwaith' tua diwedd y canllawiau yma.) | Ar ôl cael gwybod am yr afiechyd, rhaid i'r goruchwyliwr neu'r rheolwr dan sylw roi gwybod i'r Garfan Iechyd a Diogelwch **ar unwaith** er mwyn derbyn cyfarwyddyd. | Ar ôl derbyn datganiad ysgrifenedig gan yr ymarferydd meddygol cofrestredig sydd wedi gwneud y diagnosis, rhaid i aelod o'r Garfan Iechyd a Diogelwch roi gwybod i'r HSE **ar unwaith** drwy lenwi'r Ffurflen F2508 gan ddefnyddio'i gyfleuster ar-lein. Anfonwch un copi o'r F2508 (wedi'i llenwi) at yr uwch reolwr perthnasol ac un i'r adran Adnoddau Dynol. |
| 8 | **Digwyddiad 'y tu allan i oriau' (h.y. sy'n digwydd y tu allan i oriau gwaith arferol e.e. dros y** | Rhaid i'r goruchwyliwr neu'r rheolwr perthnasol ffonio'r swyddog HSE ar ddyletswydd **ar unwaith** ar 0151 922 9235 gan ddarparu'r manylion angenrheidiol. | Ar ôl cael gwybod am y digwyddiad, rhaid i aelod o'r Garfan Iechyd a Diogelwch roi gwybod i'r HSE yn ysgrifenedig amdano |

| Rhif | CATEGORI'R DIGWYDDIAD / Y DDAMWAIN | GWEITHDREFN ADRODD AR GYFER GORUCHWYLIWR NEU REOLWR | CYFRIFOLDEBAU'R GARFAN IECHYD A DIOGELWCH |
|---|---|---|---|
| | **penwythnos neu wŷl y banc) lle mae'r amgylchiadau canlynol yn berthnasol:**<br><br>• mae marwolaeth neu bosibilrwydd tebygol iawn o farwolaeth yn dilyn digwyddiad sy'n gysylltiedig â'r gwaith; neu<br>• mae damwain ddifrifol yn digwydd yn y gweithle fel y gall yr HSE gasglu tystiolaeth ffisegol a fyddai'n cael ei cholli ymhen amser; neu<br>• yn dilyn digwyddiad mawr yn y gweithle lle mae difrifoldeb y digwyddiad, neu lefel pryder y cyhoedd, yn mynnu bod datganiad cyhoeddus gan un ai'r HSE neu weinidogion y llywodraeth yn cael ei ryddhau ar unwaith. | Rhaid llenwi ac anfon y Ffurflen HS5(A) at y Garfan Iechyd a Diogelwch cyn gynted â phosibl (ond yn sicr o fewn 5 diwrnod). Dylai'r goruchwyliwr neu'r rheolwr perthnasol nodi'n glir ar Ffurflen HS5(A) fod y digwyddiad eisoes wedi cael ei adrodd i'r HSE. Gwnewch hyn dros y ffôn a rhowch fanylion am yr amser a'r dyddiad y cafodd y digwyddiad ei adrodd a rhif y digwyddiad. | cyn gynted â phosibl drwy lenwi Ffurflen F2508 gan ddefnyddio'i gyfleuster ar-lein (ond yn sicr, o fewn 10 niwrnod o ddyddiad y digwyddiad). Ar ôl cael ei llenwi, dylai copi o'r F2508 gael ei anfon at yr uwch reolwr perthnasol ac os oedd gweithiwr yn rhan o'r digwyddiad, rhaid anfon copi i'r adran Adnoddau Dynol hefyd. |
| 9 | **Digwyddiad 'y tu allan i oriau arferol' lle nad oes yr un o'r mathau o amgylchiadau sy'n cael eu crybwyll uchod yn berthnasol.** | Does dim rhaid i'r goruchwyliwr neu'r rheolwr gysylltu â'r swyddog HSE ar ddyletswydd. Ond, rhaid rhoi gwybod i'r Garfan Iechyd a Diogelwch **yn syth** pan fydd oriau gwaith arferol yn ailddechrau ar ôl y penwythnos, gŵyl y banc, ac ati. Gwnewch hyn drwy ffonio neu lenwi ac anfon Ffurflen HS5(A). Mae modd anfon y ffurflen drwy ffacs ar 01443 444534.<br><br>Os rhoddwyd gwybod i'r HSE dros y ffôn yn y lle cyntaf, rhaid anfon y Ffurflen HS5(A) at y Garfan Iechyd a Diogelwch cyn gynted â phosibl (ond yn sicr, o fewn 5 diwrnod). | Ar ôl cael gwybod am y digwyddiad, rhaid i aelod o'r Garfan Iechyd a Diogelwch benderfynu a ddylid adrodd amdano i'r HSE neu beidio o dan un o'r categorïau a nodwyd uchod. Os dylid ei adrodd, defnyddiwch y weithdrefn sydd wedi'i disgrifio fel y bo'n briodol. |

## Anafiadau nad ydyn nhw'n angheuol i weithwyr

1. Torasgwrn sydd wedi'i gadarnhau gan ymarferydd meddygol cofrestredig, heblaw am dorri bys, bys bawd neu fys troed.

2. Colli braich, llaw, bys, bys bawd, coes, troed neu fys troed.

3. Unrhyw anaf sydd wedi'i gadarnhau gan ymarferydd meddygol cofrestredig ac sy'n debygol o achosi dallineb parhaol neu niweidio golwg mewn un llygad neu'r ddwy lygad.

4. Unrhyw anaf mathru i'r pen neu'r torso sy'n achosi niwed i'r ymennydd neu organau mewnol y fron neu'r abdomen.

5. Unrhyw losgiadau (gan gynnwys sgaldiadau) sy'n -

   (i) gorchuddio dros 10% o arwynebedd y corff cyfan; neu

   (ii) achosi niwed sylweddol i'r llygaid, y system anadlu neu organau hanfodol eraill.

6. Unrhyw fath ar sgalpio sy'n mynnu triniaeth yn yr ysbyty.

7. Colli ymwybyddiaeth o ganlyniad i anaf i'r pen neu asffycsia.

8. Unrhyw anaf arall o ganlyniad i weithio mewn man caeedig sy'n -

   (i) arwain at hypothermia neu salwch sydd wedi'i achosi gan wres; neu

   (ii) mynnu proses adfywhau neu fynediad i'r ysbyty am dros 24 awr.

## Salwch Adroddadwy sy'n Gysylltiedig â'r Gwaith

### Afiechydon Galwedigaethol

1. Syndrom Twnnel y Carpws, lle bod swydd y person yn cynnwys defnydd rheolaidd o offer ergydiol neu ddirgrynol.

2. Cramp yn y llaw neu flaen y fraich, lle mae swydd y person yn cynnwys cyfnodau hir ac ailadroddus o symud y bysedd, y llaw neu'r fraich.

3. Dermatitis galwedigaethol, lle bod swydd y person yn cynnwys dod i gysylltiad sylweddol â sensiteiddiwr neu lidiwr hysbys.

4. Syndrom Dirgrynu y Llaw/Fraich (HAVS), lle bod swydd y person yn cynnwys defnydd rheolaidd o offer ergydiol neu ddirgrynol, neu ddal defnyddiau sy'n destun i brosesau ergydiol, neu brosesau sy'n achosi dirgrynu.

5. Asthma galwedigaethol, lle mae swydd y person yn cynnwys dod i gysylltiad sylweddol neu reolaidd â sensiteiddiwr anadlol hysbys.

6. Tendonitis neu denosinofitis yn y llaw neu flaen y fraich, lle mae swydd y person yn rhoi straen ar y corff ac yn cynnwys symudiadau rheolaidd ac ailadroddus.

### Cysylltiad â Charcinogenau, Mwtagenau a Chyfryngau Biolegol

1. Unrhyw gancr sy'n cael ei ystyried i ddigwydd o ganlyniad i gyswllt galwedigaethol â charcinogen neu fwtagen dynol hysbys (gan gynnwys ymbelydredd ïoneiddio).

2. Unrhyw afiechyd sy'n cael ei ystyried i ddigwydd o ganlyniad i gyswllt galwedigaethol â chyfrwng biolegol.

## Digwyddiadau Peryglus

### Offer Codi

1. Unrhyw ran o offer codi sy'n cludo llwythau, sy'n cwympo neu'n troi drosodd, heblaw am offer codi ategol.

### Systemau Pwysedd

2. Methiant i unrhyw lestr caeedig neu bibwaith cysylltiedig (heblaw am biblinell) sy'n ffurfio rhan o system wasgedd, a ddiffiniwyd gan reoliad 2(1) o Reoliadau Diogelwch Systemau Gwasgedd 2000, lle gallai'r methiant achosi marwolaeth.

### Llinell Drydan Uwchben

3. Unrhyw beirianwaith neu offer sy'n dod i gysylltiad anfwriadol -

   a) â llinell drydan uwchben sydd heb ei hinsiwleiddio, lle mae'r foltedd yn fwy na 200 folt; neu
   b) yn dod yn agos at y llinell drydan, a'i bod yn achosi dadwefriad trydanol.

### Digwyddiadau Trydanol sy'n Achosi Ffrwydrad neu Dân

4. Unrhyw ffrwydrad neu dân sy'n cael ei achosi gan orlwythiad cylched fer (gan gynnwys y rhai sydd wedi digwydd o ganlyniad i ddifrod damweiniol i beirianwaith trydanol) sydd un ai'n -

   a) arwain at atal y peirianwaith dan sylw am dros 24 awr; neu'n
   b) achosi risg sylweddol o farwolaeth.

### Ffrwydron

5. Achosion anfwriadol o -

   a) dân, ffrwydrad neu daniad ar safle lle mae gweithgynhyrchu neu storio ffrwydron yn gofyn am drwydded neu gofrestriad, o dan reoliad 9, 10 neu 11 o Reoliadau Gweithgynhyrchu a Storio Ffrwydron 2005; neu'r
   b) ffrwydron yn ffrwydro neu'n tanio (oni bai fod hynny wedi'i achosi gan ryddhad anfwriadol o arf, lle, ar wahân i'r rhyddhad anfwriadol hwnnw, yr oedd yr arf a'r ffrwydron yn gweithredu yn ôl eu bwriad),

   heblaw bod dyfais ddiogelu neu system waith ddiogel wedi atal rhywun rhag bod mewn perygl o ganlyniad i'r tân, ffrwydrad neu daniad.

## Digwyddiadau Peryglus (parhad)

6. Cam-danio ffrwydron (heblaw ar safle pwll glo neu chwarel, mewn ffynnon neu sy'n ymwneud ag arf), heblaw bod dyfais ddiogelu neu system waith ddiogel wedi atal rhywun rhag bod mewn perygl o ganlyniad i'r cam-daniad.

7. Unrhyw ffrwydrad, rhyddhad neu dân neu daniad bwriadol sy'n achosi anaf i berson sy'n arwain at driniaeth cymorth cyntaf neu feddygol, heblaw ar safle pwll glo neu chwarel.

8. Taflunio deunydd dros ffin y safle lle caiff ffrwydron eu defnyddio, neu dros barth perygl y safle, a achosodd neu a allai fod wedi achosi anaf, heblaw am chwarel.

   (Mae 'Parth Perygl' yn cyfeirio at ardal lle caiff unigolion eu gwahardd rhag mynd i mewn iddo er mwyn osgoi peryglon ynghylch unrhyw ffrwydrad neu ffrwydron yn tanio.)

9. Methiant ergydion i achosi'r dymchwel arfaethedig neu i achosi cyfeiriad arfaethedig y dymchwel mewn unrhyw weithred dymchwel.

**Cyfryngau Biolegol**

10. Unrhyw ddamwain neu ddigwyddiad sydd wedi arwain, neu a allai arwain at ryddhau cyfrwng biolegol sy'n debygol o achosi haint neu salwch difrifol.

**Generaduron Ymbelydredd a Radiograffeg**

11. Offer canlynol yn methu -

    a) generadur ymbelydredd neu offer cynorthwyol sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer radiograffeg ddiwydiannol sefydlog neu symudol, neu arbelydru bwyd neu brosesu cynnyrch drwy arbelydru, sy'n achosi'r generadur i beidio â dad-symbylu ar ddiwedd y cyfnod datguddio bwriadol; neu
    b) offer sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer radiograffeg ddiwydiannol neu arbelydru gama sefydlog neu symudol, sy'n achosi ffynhonnell ymbelydrol i beidio â dychwelyd i'w safle diogel arferol ar ddiwedd y cyfnod datguddio bwriadol.

    ('Generadur ymbelydredd' yw unrhyw offer trydanol sy'n allyrru ymbelydredd ïoneiddio sy'n cynnwys elfennau sy'n gweithredu ar wahaniaeth potensial o dros 5kV.)

## Digwyddiadau Peryglus (parhad)

**Offer Anadlu**

12. Offer Anadlu yn methu -

    a) lle bod y methiant yn achosi risg sylweddol o anaf personol i'r defnyddiwr; neu
    b) yn ystod ei brofi cyn ei ddefnyddio, lle byddai'r methiant wedi achosi risg sylweddol i iechyd a diogelwch y defnyddiwr pe bai wedi methu wrth ei ddefnyddio heblaw ar safle pwll glo.

**Ymgyrchoedd Plymio**

13. Methiant, difrod neu beryglu'r canlynol -

    a) unrhyw offer cynnal bywyd, gan gynnwys paneli rheoli, pibellau ac offer anadlu; neu
    b) y platfform plymio, neu fethiant i gadw'r platfform plymio'n llonydd, sy'n achosi risg sylweddol o anaf personol i blymiwr.

14. Unrhyw offer codi sy'n methu neu sydd dan beryg ac sy'n gysylltiedig ag ymgyrch blymio.

15. Plymiwr yn cael ei gaethiwo/ddal.

16. Ffrwydrad yng nghyffiniau'r plymiwr.

17. Unrhyw esgynfa neu ddatgywasgiad afreolus sy'n achosi risg sylweddol o anaf personol i blymiwr.

**Sgaffaldiau yn Dymchwel**

18. Dymchweliad llawn neu rannol (gan gynnwys cwympo, crychu neu ddymchwel) o'r canlynol –

    a) rhan sylweddol o unrhyw sgaffald sydd dros 5 metr o uchder;
    b) unrhyw ran gynhaliol o sgaffald crog sy'n achosi llwyfan waith i gwympo (sy'n cael ei defnyddio neu beidio); neu
    c) unrhyw ran o sgaffald dan amgylchiadau lle byddai risg sylweddol o rywun yn boddi yn codi o ganlyniad i gwymp y sgaffald.

## Digwyddiadau Peryglus (parhad)

**Gwrthdrawiadau Trên**

19. Trên yn gwrthdaro yn erbyn trên neu gerbyd arall, oni bai am wrthdrawiad sy'n adroddadwy o dan Ran 5, Atodlen 2 o RIDDOR 2013, a allai fod wedi achosi marwolaeth neu anaf penodol i unrhyw berson.

**Ffynhonnau**

20. Mewn perthynas â ffynnon (heblaw am ffynnon sy'n cael ei suddo ar gyfer echdynnu dŵr) -

    a) chwythiad/ffrwydrad (sy'n cynnwys unrhyw lif afreolus o hylifau o'r ffynnon);
    b) dechrau gweithredu system atal chwythu neu ddargyfeirio i reoli llif hylifau'r ffynhonnau lle bod dulliau gweithredu arferol yn methu;
    c) canfod hydrogen sylffid mewn ffynnon neu mewn samplau hylif y ffynnon, lle nad oedd y person cyfrifol yn rhagweld y byddai'n bresennol yn y gronfa ddŵr neu'r ffynnon;
    ch) cymryd mesurau gofal ychwanegol i'r rhai sydd wedi'u cynnwys yn y rhaglen ddrilio wreiddiol, lle ni chafodd y pellter gwahanu lleiaf a gynlluniwyd rhwng ffynhonnau cyfagos ei gynnal; neu
    d) fethiant mecanyddol i unrhyw ran o ffynnon sydd i fod i atal neu gyfyngu'r effaith y mae rhyddhad anfwriadol o hylifau ffynnon neu gronfa ddŵr yn ei chael, neu lle byddai'r methiant wedi achosi neu gyfrannu at ryddhad o'r fath.

**Piblinellau neu Waith i Biblinellau**

21. Mewn perthynas â phiblinellau neu waith i biblinellau –

    a) unrhyw ddifrod i unrhyw beth sy'n mynd i mewn i biblinell o ganlyniad i ryddhad damweiniol neu afreolus gan ddylifiad;
    b) unrhyw ddyfais ynysu piblinellau, cyfarpar neu system gysylltiedig yn methu; neu
    c) fethiant unrhyw gyfarpar sy'n ymwneud â gwaith i biblinellau a all achosi anaf personol i unrhyw berson, neu sy'n arwain at gau'r biblinell am dros 24 awr.

22. Newid anfwriadol i leoliad piblinell, neu isbridd neu wely môr y safle, sy'n mynnu sylw i sicrhau dibynadwyedd a diogelwch y biblinell.

## Digwyddiadau Peryglus (parhad)

**Dymchweliad Adeileddol**

23. Dymchweliad anfwriadol neu ddymchweliad rhannol o -

a) unrhyw adeiledd, sy'n golygu bod dros 5 tunnell o ddeunydd wedi cwympo;
neu
b) unrhyw lawr neu wal ar unrhyw safle gwaith.

24. Dymchweliad anfwriadol neu ddymchweliad rhannol o unrhyw fframwaith dros dro.

**Ffrwydrad neu Dân**

25. Unrhyw ffrwydrad neu dân anfwriadol mewn unrhyw ffatri neu safle sy'n arwain at gau'r ffatri, neu ohirio gwaith arferol yn y safleoedd hynny, am dros 24 awr.

**Rhyddhau Hylifau a Nwyon Fflamadwy**

26. Rhyddhad sydyn, anfwriadol ac afreolus -

a) mewn adeilad -

(i) o 100 cilogram neu ragor o hylif fflamadwy;
(ii) o 10 cilogram neu ragor o hylif fflamadwy ar dymheredd sydd dros ei ferwbwynt arferol;
(iii) o 10 cilogram neu ragor o nwy fflamadwy; neu

b) 500 cilogram neu ragor o hylif neu nwy fflamadwy yn yr awyr agored

**Rhyddhad Peryglus o Sylweddau**

27. Rhyddhad anfwriadol o unrhyw sylwedd a all achosi anaf personol i unrhyw berson heblaw am drwy daniad hylifau neu nwyon fflamadwy.

**Mae'r rhestr uchod yn atgynhyrchiad o'r digwyddiadau peryglus a nodwyd yn Rhan 1 (Cyffredinol) a Rhan 2 (Digwyddiadau Peryglus Adroddadwy mewn perthynas â Gweithle ar y Môr) o Atodlen 2, RIDDOR 2013.**

**Cyfeiriwch at RIDDOR 2013 am Rannau 3, 4, 5 a 6 o Atodlen 2 mewn perthynas â Mwynfeydd, Chwareli, Systemau Cludiant a Gweithleoedd Alltraeth yn ôl eu trefn.**